





Gwefan Cyw Cyw Website

Mae'r wefan yn llawn straeon, gemau, caneuon a phosau i helpu'r dysgwyr lleiaf i ddysgu Cymraeg.

Pa ddeunydd allwch chi ymgorffori yn eich gwersi Cymraeg chi?

The Cyw website is full of stories, games, songs and puzzles to support teaching and learning Welsh in the classroom.

Look at the various aspects of the website and plan how you could implement them in your Welsh lessons.



Tasg Ddarllen Reading task

Darllenwch stori Cyw – ‘Chwarae gêm’.
Atebwch y cwestiynau gan ddefnyddio brawddegau llawn.
Defnyddiwch patrymau'r sesiwn hon a sesiynau blaenorol
i'ch helpu chi.

*Read this Cyw story – ‘Chwarae gêm’ and answer the past
tense questions using full sentences if you can.
Use the patterns from this session and previous sessions to
help you.*



Chwarae gêm



1. Roedd hi'n ddiwrnod gwlyb a stormus. Roedd Cyw a'i ffrindiau yn y tŷ. Doedd dim posib mynd allan i chwarae. "Beth am chwarae Gêm Sardîns?" meddai Cyw. Ond doedd Bolgi ddim yn gwybod sut i chwarae Gêm Sardîns.

Geirfa

Vocabulary

cuddio	to hide
dod o hyd i	to find
cuddfan	hiding place
cyfri	to count

Geirfa

Vocabulary

cuddio	to hide
dod o hyd i	to find
cuddfan	hiding place
cyfri	to count




2. Mae un yn mynd i guddio a phawb yn chwilio. Os ydyn ni'n dod o hyd i'r un sy'n cuddio, rhaid i ni guddio hefyd, a gwasgu i'r un guddfan!" Roedd hynny'n swno'n hwyl, meddyliodd Bolgi. Aeth Llew i guddio'n gyntaf. Caeodd pawb arall eu llygaid a chyfri i ddeg. Aeth Llew i guddio tu ôl i'r sofa.

Geirfa

Vocabulary

Barod neu beidio	Ready or not
bloeddio	to shout
cyfeiriad	direction
Tyrd i guddio	Come to hide



3. "Barod neu beidio, dyma ni'n dod!" Bloeddiodd Cyw. Yna, aeth pawb i chwilio. Aeth Plwmp, Deryn a Cyw i fyny'r grisiau.



4. Aeth Jangl a Triog i'r gegin ond aeth Bolgi i'r cyfeiriad arall. Aeth Bolgi i'r ystafell fyw.

Barod neu beidio	Ready or not
bloeddio	to shout
cyfeiriad	direction
Tyrd i guddio	Come to hide



5. Roedd Bolgi'n gwybod yn iawn lle oedd hoff guddfan Llew – tu ôl i'r sofffa. Daeth Bolgi o hyd i Llew yn syth



6. "Tyrd i guddio," meddai Llew gan wneud lle i Bolgi. Cuddiodd y ddau yn dawel bach nes clywed Triog a Jangl yn dod i mewn. Roedd Bolgi a Llew eisiau chwerthin.

Geirfa

Vocabulary

gwasgu gyda'i gilydd	squeeze together
ceisio'u gorau	trying their best
chwilio yn y cwpwrdd	searching in the cupboard
dynn fel sardîns	tight as sardines
i rywun arall	for somebody else



7. Daeth Jangl a Triog o hyd i'r ddau ac roedd rhaid i'r pedwar wasgu gyda'i gilydd tu ôl i'r sofa. Roedd mwy o chwerthin a phawb yn ceisio'u gorau i fod yn dawel.




8. Roedd Cyw wedi dod i lawr y grisiau ac yn chwilio yn y cwpwrdd o dan y grisiau pan glywodd hi'r chwerthin.

ystafell fyw	lounge
ceisio'u gorau	<i>trying their best</i>
chwilio yn y cwpwrdd	<i>searching in the cupboard</i>
Pwy fyddai'n...?	<i>Who would...?</i>
ffitio yn y guddfan	<i>fit in the hiding place</i>



9. Daeth Cyw o hyd iddyn nhw! Roedd rhaid i Cyw wasgu mewn atyn nhw hefyd, a pawb yn dynn fel sardîns mewn tin. Dim ond lle bach iawn oedd ar ôl i rywun arall. Roedd Plwmp a Deryn ar eu ffordd i lawr y grisiau i chwilio yn yr ystafell fyw. Ond pwy fyddai'n dod o hyd iddyn nhw gyntaf tybed? A phwy fyddai'n ffitio yn y guddfan? Plwmp neu Deryn?

Cwestiynau



1. Sut roedd y tywydd?
2. Pa gêm roedd Cyw eisiau chwarae?
3. Pwy aeth i guddio yn gyntaf?
4. Ble aeth Llew i guddio?
5. Ble aeth Bolgi i guddio?
6. Beth roedd Bolgi a Llew eisiau gwneud?
7. Beth glywodd Cyw pan roedd hi'n chwilio yn y cwpwrdd?
8. Pwy oedd y ddau olaf?